# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

**RHAN 3**

ASESIADAU AR DDEFNYDDWYR BLAENOROL
O WASANAETHAU IECHYD MEDDWL EILAIDD

*Atodol*

**29 Penderfynu man preswylio arferol**

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae unrhyw gwestiwn o ran ardal yr awdurdod lleol y mae oedolyn fel arfer yn preswylio ynddi i'w benderfynu yn unol â darpariaeth mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir iddi gael ei gwneud mewn rheoliadau o dan is-adran (1) yn cynnwys darpariaeth (ond nid yw wedi ei chyfyngu iddi)–

(a) sy'n rhoi pŵer i benderfynu ar ardal yr awdurdod lleol y mae oedolyn fel arfer yn preswylio ynddi;

(b) ar gyfer tybio bod oedolyn fel arfer yn preswylio mewn ardal.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 mewn grym ar 15.2.2011 at ddibenion penodedig, gweler **a. 55(1)(2)**(b)

**I2** A. 29 mewn grym ar 6.6.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(r)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 29.